**Cyngor Cymuned Glantwymyn**

**Nos Iau, y 27ain o Fehefin 2019**

**19:44: Presennol:** Cynghorwyr: Siôn Ifans (Cadeirydd), Dafydd Evans, Gareth Evans, Deryck Lewis, William N Owen, Paul Hughes, Gwenfair Davies, Gwen Lloyd, Gareth Owen, Gwenfair Davies, Aeron Pughe, Huw Williams, Iwan Jones,

**19:45: Ymddiheuriadau:** Gwyn Jones, Aled Griffiths, Geraint Wigley, Gwyn Jones, Elwyn Vaughan

**19:46:1: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr 27ain o Fehefin 2019** Cynigiodd Huw Williams fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:46:2: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod CC Glantwymyn yr 27ain o Fehefin 2019** Cynigiodd Paul Hughes fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:47: Materion yn codi o'r cofnodion –**

**19:47:1:** Mae toiledau Cemaes wedi cael eu gwerthu ond nid yw Powys eto wedi datgelu i bwy. Penderfynwyd cysylltu eto i holi oedd y toiledau wedi cael eu gwerthu mewn gwirionedd gan fod hanes o fethu cwblhau wedi bod.

Pump house Cwmlline dal angen sylw.

Cafwyd cais am leoliadau a rhifau ffôn y blychau ffôn dan sylw. Sefydlwyd mai Cemaes, Darowen a Dolfor oedd dan sylw.

Diolchwyd i William Owen am lanhau cysgodfa Bysiau Llanwrin a'r ardal o'i hamgylch

**19:48 Cynllunio –** 19/0764/FUL Cynigiwyd y dylid atal sylwadau gan nad oedd digon o fanylion gerllaw gan Aeron Pughe. Fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

19/1021/HH – Penderfynwyd ei dderbyn gan bawb

**19:49: Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**19:50 Eitemau i'w Talu a Materion Ariannol**

**19:50:1**: Talwyd £180.00 yn gyflog i'r clerc ar gyfer Mai.

**19:51: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:51:1**: **Iechyd** – Mae Ecodyfi a Choed Lleol wedi llwyddo i dderbyn cyllid i beilota a datblygu rhaglen Iechyd a lles yn yr awyr agored yn ardal Biosffer Dyfi, sydd yn cynnwys ardal Glantwymyn.

Bydd cyfle i bobl ymuno mewn amrywiol weithgareddau, a lle bo'n addas bydd meddygon a gweithwyr iechyd a chymdeithasol hefyd yn medru cyfeirio pobl i ymuno. Gobeithir cael cyllid i ymestyn y prosiect dros gyfnod hirach.

Codwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r feddygfa.

Ni chafwyd gwybod ar goedd bod Meddygfa Glantwymyn wedi cau. Deallwyd mai ar ddiwedd Gorffennaf y byddai hynny'n digwydd. Ni dderbyniwyd gwybodaeth eto am gynllun i

ddefnyddio Glantwymyn yn lleoliad lle gellir codi meddyginiaethau ddau fore'r wythnos rhwng Awst a Hydref.

Pwysleisiwyd bod gwasanaeth cludo meddyginiaethau i'r cartref yn hanfodol i'r ardal.

Mynegwyd pryderon am ddiffyg cyfathrebu clir. Ofnir bod y momentwm a ddangoswyd gan Fwrdd Iechyd Powys a'r addewidion cychwynnol yn ymddangos fel eu bod wedi diflannu.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i fynegi'r pryderon hyn.

**19:51:2:** Mae **Cyngor Sir Powys** wedi rhybuddio y byddant yn gwneud toriadau pellach hyd at £46 m dros y tair blynedd nesaf.

Mae Cyngor Sir Powys erbyn hyn yn berchen ar y cynlluniau pensaernïol ac yn bwriadu mynd allan i dendr yn fuan am adeiladwyr newydd.

Mae nifer o gwynion yn dal i fod am y feddygfa a galwyd am gyfarfod a'r Awdurdod Iechyd.

Mae nifer o gynlluniau ar y gweill yn lleol gan gynnwys 'O'r mynydd i'r môr' a 'Pont' Mae pryder wedi codi ynghylch effeithiolrwydd y cynlluniau hyn o ran diffyg perchnogaeth leol a defnydd aneffeithiol o adnoddau gan gynnwys adnoddau dynol.

Mae gwastraff yng Nghomins Coch wedi cael ei glirio.

**19:52 Gohebiaeth**

**19:52:1:** Derbyniwyd llythyr ac e-byst yn gofyn am ohirio torri'r gwair ochr y ffordd yng Ngheinws ar sail gadwraethol. Penderfynwyd nad oedd modd cefnogi'r cais oherwydd ystyriaethau diogelwch ffyrdd.

**19:52:2:** Derbyniwyd prisiant gan Rhys Bleddyn i adfer cofebion rhyfel Powys. 19:51:2

**19:52:4:** Cafwyd llythyr gan Gareth Williams yn cydnabod derbyn y cais am arwyddion ffyrdd yng Nghemaes. Gofynnwyd am ddiweddariad am gais arwyddion Cemaes a Glantwymyn

**19:53: Unrhyw fater arall**

**19:53:1:** Problemau'n ymwneud â phriffyrdd yn cynnwys;

**19:53:2:** Problemau a adroddwyd o'r blaen sydd heb gael ymateb gan Gyngor Sir Powys:

- pump station Cwmllinau - penderfynwyd cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, Pysgodfeydd Dyfi a Dŵr Cymru unwaith eto.
- grid tua thwll archwilio tu allan i Frynhyfryd, 4 Rhos Awel Cwmlline
- clawr ger Mathafarn – wedi cael sylw ond heb ei orffen yn daclus nac yn ddiogel.
- lamp ganol pentref, Llanwrin R03 -10 19:52:6 wedi cael sylw aneffeithiol ac angen ei thrwsio eto Llanwrin
- tyllau archwilio ar y ffordd gefn o Fachynlleth i Bantperthog sydd eto mewn cyflwr gwael.
- twll archwilio ar y ffordd fawr, A489 uwchben Poisnant.
- grid ger mynediad i gae ger Aberffrydlan, Llanwrin a'r sietyn ochr arall i'r ffordd.

coeden Nant-y-cyff

Penderfynwyd cysylltu â'r cyrff perthnasol eto.

**19:53:2: Problemau newydd:**

**19:53:1:** hysbysfwrdd Cilfan Country Kitchens mewn cyflwr gwael

**19:53:2:** gwair ochr y ffordd o gwmpas arwyddion ffyrdd ger Minffordd (rhwng Comins a Glantwymyn) heb gael ei dorri fel sy'n arferol o gwmpas arwyddion ffyrdd gan greu peryg i ddefnyddwyr ffyrdd.

**19:53:3**: dŵr ar y ffordd ger mynedfa Brynberllan, Llanwrin

**19:53:4:** angen glanhau ardal biniau ysbwriel gwaelod Cwmffrydlan

**19:53:5:** pryderon ynglŷn â phrysurdeb ceir wrth fynedfa Ysgol Glantwymyn - cafwyd cais am osod arwydd ildio wrth y fynedfa, marcio llefydd i geir barcio.

**19:53:6:** coed wrth y wal ger mynedfa Glantwymyn angen eu tocio gan eu bod yn amharu ar y parcio.

**19:53:7:** angen rhoi lamp top pentref Glantwymyn yn ôl ar ôl ei cholli adeg gosodwyd y grid gwartheg gan ei bod hi'n dywyll dros ben ac yn yno.

**19:53:8:** arwydd 'Dovey Valley Shooting Ground' yn uniaith Saesneg

Caewyd y cyfarfod am 8.50yh

**Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos Iau, y 25ain o Orffennaf am 7.30yh.**